**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022**

**Pwynt Craffu Technegol 1:** Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r pwynt a godwyd a bydd yn ceisio unioni hyn drwy slip cywiro ar y cyfle cyntaf.

**Pwynt Craffu Technegol 2:** O ran rheoliad 2(2)(a) mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod gwall teipograffyddol ond mae'n ystyried mai'r dyfynnod agoriadol yw'r dyfynnod sydd ar goll yn hytrach na'r dyfynnod cloi. Hynny yw: dylai *"pla cwarantin …"* ddarllen "*"pla cwarantin …"*.

O ran y pwynt craffu technegol a godwyd mewn cysylltiad â rheoliad 2(2)(a)(i) a (iii), mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod y drafftio'n wahanol yn y fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r Rheoliadau. Bydd yn ceisio unioni'r gwallau hyn drwy slip cywiro ar y cyfle cyntaf.